**WHC/2016/033**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 28 Mehefin 2016

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI: GWYBODAETH LYWODRAETHU**

**Teitl:** Cyfarwyddiadau o dan adran 12(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth ar wefannau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** mewn 3 blynedd

**I'w weithredu gan:**

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**Angen gweithredu erbyn:** 30 Medi 2016

**Anfonir gan:**
Joanna Jordan, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol y GIG


**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**
Lyn Summers, Pennaeth Tîm Cymorth Canolog Deddfwriaeth, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E bost: lyn.summers@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 02920 821650


**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

**WHC/2016/033 - Cyhoeddi gwybodaeth ar wefannau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG**

Annwyl Gydweithiwr,

## Diben

Diben y Cylchlythyr iechyd Cymru hwn yw ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth ar wefannau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer y cyhoedd a sicrhau bod modd dod o hyd i wybodaeth gyhoeddedig yn rhwydd.

## Cefndir

Nododd adroddiad archwilio mewnol yn ddiweddar ar Drefniadau Llywodraethu a Sicrwydd y GIG amrywiaeth o ran arferion o fewn GIG Cymru o safbwynt cyhoeddi Rheolau Sefydlog and Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar y rhyngrwyd. Mae hyn yn golygu bod achosion lle nad yw'r cyhoedd yn gallu gweld Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog eu bwrdd iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG i weld a ydynt yn cydymffurfio â hwy. Cynhaliodd y grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac adolygiad mwy cyffredinol o'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi ar wefannau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG a dod o hyd i rai anghysondebau eraill o ran cyhoeddi gwybodaeth ac argaeledd gwybodaeth.

Mae'r Cylchlythyr hwn yn rhan o'r ymateb i argymhelliad yr archwiliad i'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol anfon nodyn at bob Bwrdd Iechyd Lleol a phob Ymddiriedolaeth y GIG ar ba wybodaeth ddylai gael ei chyhoeddi er mwyn mynd i'r afael â diffyg tryloywder.

Fe wyddom i Gyfarwyddwr Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar y pryd ysgrifennu at holl Gyfarwyddwyr Cyllid y GIG ym mis Tachwedd 2009 i egluro materion cyfrinachedd ynghylch gweithredu Pwyllgorau Archwilio. Er mwyn cadw cysondeb â'r llythyr hwnnw rydym yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Archwilio gyhoeddi agendâu a phapurau arferol yn unig .

## Gweithredu

Gofynnir i Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG gyhoeddi, ar y lleiaf, yr wybodaeth ganlynol a threfnu bod modd ei gweld ar dudalen hafan y wefan:

- Rheolau Sefydlog
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog
- Cynllun Blynyddol Busnes y Bwrdd
- Agendâu a Phapurau Byrddau a Phwyllgorau ac eithrio Pwyllgorau Archwilio lle'r gofyniad yw cyhoeddi agendâu a phob papur arferol

- Cynlluniau Tymor Canolig Integredig – cyhoeddi cynlluniau terfynol wedi'u cymeradwyo neu gynllun blynyddol os nad oes cymeradwyaeth tair blynedd wedi'i sicrhau
- Cynlluniau Ymgysylltu â Dinasyddion
- Cynllun Iaith Gymraeg
- Polisi ar Gwynion /Codi pryderon
- Datganiad Blynyddol ar Ansawdd
- Cyfrifon Blynyddol gan gynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiad Blynyddol.

Gofynnwyd i Brif Weithredwyr weithredu ar y cylchlythyr hwn erbyn 30 Medi 2016 a chadarnhau cydymffurfiad i Joanna Jordan erbyn 31 Hydref 2016.

**<u>Argymhelliad i'w ystyried</u>**

Yn ogystal, rydym yn argymell yn gryf bod Prif Weithredwyr y Byrddau iechyd Lleol a, lle bo'n gymwys, Ymddiriedolaethau'r GIG, hefyd yn cyhoeddi'r wybodaeth, gan drefnu unwaith eto fod modd ei hadnabod a dod o hyd iddo ar dudalen hafan y wefan:

- Polisi ar Amseroedd Ymweld Hyblyg
- Cynllun Diogelwch Cleifion ac Ansawdd
- Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol
- Polisi iechyd a Diogelwch.

**Ymholiadau**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at

Y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol y GIG
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
4ydd Llawr
Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: lyn.summers@wales.gsi.gov.uk
Ffôn : 02920 821650

Joanna Jordan
Y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol y GIG
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru